



Y BROSES O YMGEISIO:

Cais:

Cyflwynwch eich llythyr eglurhad, yn esbonio pam eich bod yn addas ar gyfer y swydd hon, ynghyd â'ch CV yn rhoi gwybodaeth lawn o'ch profiad. Gallwch ymgeisio'n Gymraeg a / neu Saesneg.

Rhaid i'ch cais gyrraedd Tir Coed ar y cyfeiriad isod erbyn 5yh ar y dyddiad cau; mae'n annhebyg y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn. Derbynnir ceisiadau electronig. Gofynnir i chi gynnwys enwau, cyfeiriadau (gan gynnwys cyfeiriad e-bost, os ar gael) 2 geirda gallwn gysylltu â hwy o flaen llaw.

Gofynnir i chi hefyd roi eich enw llawn, rhif ffôn a'ch cyfeiriad neu'ch cyfeiriad e-bost i ni er mwyn i ni allu cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais.

Mae'n hanfodol i chi roi disgrifiad llawn ond cryno o'r natur, graddau a'r lefel o'r cyfrifoldebau yr ydych wedi'u cynnal, a'ch profiad ar gyfer y swydd hon yn ychwanegol i'ch CV.

Mi fydd Tir Coed yn ystyried a ydych yn addas ar gyfer unrhyw swydd arall a all fod ar gael; rhowch wybod i ni os nad ydych yn dymuno cael eich ystyried am swydd y tu allan i'r rheini a nodwyd ar eich cais ac os nad ydych yn dymuno i ni gadw eich gwybodaeth ar ffeil am hyd at 12 mis i'ch hysbysu am unrhyw gyfleoedd arall.

Anfonwch eich ceisiadau, wedi'i nodi'n Breifat a Chyfrinachol i:

CEO

Uned 6G Parc Gwyddoniaeth

Llanbadarn Fawr

Aberystwyth

Ceredigion

SY23 3AH

ceo@tircoed.org.uk

Gallwch anfon ymholiadau anffurfiol i'r cyfeiriad uchod neu drwy ffonio 01970 636909.

Dewis:

Bydd ymgeiswyr sydd, ar sail y llythyr eglurhad a'r CV, yn ymddangos i fod a'r mwyaf o gymwysterau, sgiliau a'r profiad perthnasol yn cael ei gwahodd i gyfweliad, fel arfer o fewn pythefnos i'r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed wrthym o fewn 8 wythnos, gallwch dybio nad ydych wedi bod yn llwyddiannus y tro hwn.

Cyfweliad:

Yn arferol mae'r Bwrdd Dethol yn cynnwys 2 - 5 o gyfwelwyr bydd yn gofyn cwestiynau i chi'n benodol mewn cysylltiad â'ch profiad academiaidd a/neu brofiad gwaith a chyflawniadau sy'n gysylltiedig â'ch gwaith. Prif nod y Bwrdd fydd i gael cipolwg o'ch gallu i gyflawni'r swydd yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mae'r rhan fwyaf o gyfweliadau'n cynnwys tasg sy'n briodol i'r swydd fydd yn cael ei gwblhau ar y diwrnod. Yn gyffredinol nid es angen paratoi ar gyfer y rhain; os bydd angen paratoi byddwn yn rhoi 5 - 7 diwrnod o rybudd i chi o natur y dasg a'r hyn fydd ei angen.

Cynigir y swydd i'r ymgeisydd llwyddiannus, yn amodol ar eirdaon boddhaol, prawf o hunaniaeth a'r hawl i weithio yn y DU, yn ogystal â Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os yw hynny'n berthnasol, ac yna bydd disgwyl iddynt ddechrau'r swydd mor fuan â phosib ar ôl hynny.

Pan fo mwy nag un swydd ar gael, bydd yr ymgeisydd yn cael cynnig y swydd y mae'r panel yn teimlo sy'n ateb cryfderau'r ymgeisydd fwyaf.

Byddwn yn cysylltu ag ymgeiswyr aflwyddiannus mor fuan â phosib ar ol i'r ymgeisydd a ddewiswyd cael cynnig y swydd. Mae croeso i bob ymgeisydd ofyn am adborth o'r bwrdd cyfweld os dymunant.

Cyfleoedd Cyfartal:

Mae Tir Coed wedi ymrwymo i gyfleoedd cyfartal ac yn croesawu ceisiadau o bob oed a phob rhan o'r gymdeithas. Rhowch wybod i ni os bydd angen unrhyw addasiadau i'ch galluogi chi i ymgeisio ar gyfer y swydd neu fynychu cyfweliad.

Nodwch y bydd angen i ni gwblhau Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) Sylfaenol neu Ddyrchafedig ar gyfer nifer o'n swyddi. Bydd hyn wedi'i gynnwys yng ngwybodaeth y swydd. Os oes gennych gofnod troseddol, ni fydd hyn yn eich rhwystro rhag derbyn swydd gyda ni, ac mi fydd natur a gwybodaeth unrhyw euogfarnau yn cael eu hystyried.

AM TIR COED:

Mae Tir Coed yn Elusen Gymreig uchel ei pharch sy'n tyfu a gyfansoddwyd fel Cwmni cyfyngedig drwy Warant nid ar gyfer elw, ac y mae'n cael ei reoli gan Fwrdd o 10 Ymddiriedolwr. Ar hyn o bryd mae dwy swyddfa, y naill yn Aberystwyth a'r llall yng Nghwm Elan gyda thrydydd ar fu'n agor yn Sir Benfro. Cyflogir 10 aelod o staff yn bresennol gan yr elusen gyda 50 tiwtor llawrydd yn derbyn gwaith rheolaidd o brosiectau Tir Coed. Mae Tir Coed yn cyrraedd 1000 o fuddiolwyr ar gyfartaledd y flwyddyn.

Ffurfiwyd Tir Coed yn 1999 gan gynghrair o asiantaethau cefn gwlad. Mae'n gweithio i wella ansawdd bywyd Cymunedau gwledig yng Nghymru drwy goed a choedwigoedd sydd wedi esblygu yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ynglŷn ag Iechyd, Cynhwysiant Cymdeithasol a Chynhwysiant Addysg dra mewn ymgynghoriad â'r cymunedau a'r bobl y mae'n ei gwasanaethu. Fel elusen mae Tir Coed wedi bod yn llwyddiannus iawn yn darparu gweithgareddau allgymorth a rhaglenni hyfforddiant mewn sgiliau sy'n ymwneud â choedwigaeth i grwpiau dan anfantais am 16 o flynyddoedd. Mae'r prosiectau sy'n darparu'r gweithgareddau hyn yn dod â chyllidwyr, asiantaethau atgyweirio, hyfforddwyr, perchnogion coedwigoedd, sefydliadau partner a chyfranogwyr ynghyd, mae gweithgareddau Tir Coed hefyd yn gwella bioamrywiaeth coedwigoedd a mynediad cyhoeddus iddynt drwy dechnegau rheoli effaith isel a'r ddarpariaeth o gyfleusterau gwell neu newydd ar gyfer y cyhoedd.

Amcan Cyffredinol Tir Coed yw:

Hyrwyddo addysg mewn sgiliau sy'n gysylltiedig â choedwigoedd i fod o fudd i unigolion yng nghefn gwlad Cymru sydd angen y cyfleusterau hyn oherwydd rhesymau fel eu hieuenctid, oed, anabledd meddyliol neu anabledd corfforol, caledi ariannol neu amgylchiadau cymdeithasol, gyda'r bwriad i wella'i safon byw.

Gwaith presennol Tir Coed:

Prosiect LEAF

Yn dilyn pilot llwyddiannus, mae Tir Coed wedi sicrhau cyllid ar gyfer dwy flynedd o'r prosiect newydd LEAF (Dysgu i Alluogi Cyflwyniad a Boddhad) a ddechreuodd yn Nhachwedd 2017, gan gynnwys cyllid ychwanegol i ehangu prosiect LEAF yng Ngheredigion a Sir Benfro drwy Gynhwysiant Gweithredol.

Mae'r prosiect LEAF ym Mhowys yn cael ei gyflwyno o dan frand Elan Links. Ym Mhowys mi fydd y prosiect yn rhedeg am bum mlynedd ochr yn ochr â phrosiect ehangach i adnewyddu'r cwm cyfan. Mae Tir Coed yn brif bartner yn y grŵp sy'n rhedeg cynllun Elan Links ac y mae rôl y prosiect LEAF wedi'i ymgorffori yn nod ehangach y prosiectau, gyda Tir Coed yn arwain y datblygiad gwirfoddoli a hyfforddiant.

Mae LEAF yn rhedeg ar draws siroedd Powys, Sir Benfro a Cheredigion wrth gysylltu lleoliadau a phrosiectau strategol ym mhob sir. Y mae'r ffocws ar gyflwyno'r model ymgysylltu sydd wedi'i hen sefydlu yn y tair sir wrth redeg pecynnau hyfforddi dilyniant a chymorth. Mae gan Brosiect LEAF nifer o bartneriaid allweddol sy'n ehangu dylanwad y prosiect ac ychwanegu gwerth wrth alluogi cyfleoedd mwy i fuddiolwyr Tir Coed.

Prosiectau eriall

Mae gan Tir Coed nifer o brosiectau a pheilotiau'n rhedeg ochr yn ochr â'r prosiect LEAF, gan gynnwys Dysgu am Goed, AnTir, a pheilot Construction Youth Trust. Edrychwch ar y wefan am ragor o wybodaeth.